



CYDWEITHREDFA GWELLA GWASANAETHAU
GOFAL A LLESIANT **GOGLEDD CYMRU**

NORTH WALES SOCIAL CARE AND WELL-BEING
SERVICES IMPROVEMENT COLLABORATIVE

Cofnodion Cyfarfod Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol Gogledd Cymru

11 Hydref 2018

9:00 am – 1:30 pm

Optic, Llanelwy

Yn bresennol:	Cyng. Gareth Roberts (cadeirydd), Bethan Jones Edwards, Jenny Williams, Morwena Edwards, Neil Ayling, Caroline Turner, Cyng. Bobby Feeley, Cyng. Joan Lowe, Cyng. Llinos Medi Huws, Cyng. Liz Roberts, John Gallanders (Prif Swyddog Gweithredol Cymdeithas Mudiadau Gwirfoddol Wrecsam – yn mynychu yn lle Wendy Jones), Mark Armstrong (Heddlu Gogledd Cymru – yn mynychu yn lle Neil Armstrong), Andrew Long, Kevin Roberts, Teresa Owen, Jennie Lewis, Chris Stockport, Charlotte Walton, Sally Baxter, Marian Wyn Jones, Mary Wimbury
Ymddiheuriadau:	Nicola Stubbins, Dave Worrall, Wendy Jones, Vin West, Debbie Shaffer, Peter Williams, Neil Armstrong, Lynda Colwell
Hefyd yn Bresennol:	Bethan Jones (Cyfarwyddwr Rhanbarth Canolog BIPBC) ac Alison Cowell (Iechyd Plant a'r Glasoed Prifysgol Betsi Cadwaladr) ar gyfer eitem 3 ar y rhaglen Iwan Trefor Jones (Cyfarwyddwr Corfforaethol Cyngor Gwynedd) ar gyfer eitem 4 ar y rhaglen Meinir Williams (Cyfarwyddwr Cyswllt Gofal heb ei Drefnu), Steven Vaughan (Cyfarwyddwr Interim Gofal Eilaidd) a Joanna Elis-Williams ar gyfer eitem 5 ar y rhaglen Dr Glyn Roberts (Cyfarwyddwr Rhaglen Gogledd Cymru Iach) ar gyfer eitem 6 ar y rhaglen Alison Johnstone (Arweinydd Dementia Ymddiriedolaeth Gwasanaethau Ambiwlans Cymru) ar gyfer eitem 9 ar y rhaglen Stephen Townley a Jeanette Williams (Swyddogion Cyswllt Lluoedd Arfog Gogledd Cymru) ar gyfer eitem 10 ar y rhaglen

Eitem		Camau gweithredu
1.	<u>Croeso, cyflwyniadau ac ymddiheuriadau</u> Croesawodd GR bawb i'r cyfarfod. Cafwyd cyflwyniadau, nodwyd yr ymddiheuriadau fel uchod, ac estynnwyd croeso cynnes i aelodau newydd sydd wedi ymuno â'r Bwrdd.	

	<p>Hysbysodd GR aelodau'r Bwrdd mai'r cyfarfod hwn fyddai cyfarfod diwethaf Vin West a Debbie Shaffer am fod eu cyfnodau fel cynrychiolwyr Gofalwyr a defnyddwyr gwasanaeth yn dod i ben. Bydd diolch arbennig yn cael ei fynegi i'r ddau ar ran y Bwrdd i gydnabod eu cyfraniad yn ystod y ddwy flynedd ddiwethaf.</p> <p>Nodwyd gohebiaeth e-bost a dderbyniwyd gan Vin West yn diolch i'r Cadeirydd, yr aelodau a'r Tîm Cydweithredu Rhanbarthol am eu cefnogaeth yn ystod ei dymor fel Cynrychiolydd Gofalwyr ar Fwrdd Partneriaeth Rhanbarthol Gogledd Cymru.</p>	<p>Llythyr i'w anfon - BJE</p>
<p>2.</p>	<p><u>Cofnodion a chamau gweithredu o'r cyfarfod diwethaf.</u></p> <p>Derbyniwyd cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 7 Medi fel cofnod cywir.</p> <p>Materion yn Codi: Eir i'r afael ag eitemau rhaglen 6.5 a 6.6 trwy'r Grŵp Arweinyddiaeth ym mis Hydref Mae manylion y Pencampwyr Awtistiaeth yn cael eu cyfuno ac fe fyddant yn cael eu dosbarthu. Cadarnhaodd SB lywodraethiad cyfalaf y Gronfa Ofal Integredig o fewn Prifysgol Betsi Cadwaladr.</p> <p><u>Camau gweithredu o gyfarfod Gorffennaf sydd heb eu cwblhau:</u> AH i yrru siart perthynas ymlaen o fewn Prifysgol Betsi Cadwaladr – eitem 3 ar y rhaglen WJ eto i ddarparu niferoedd yr aelodau panel ar gyfer pob ardal Awdurdod Lleol – eitem 5 ar y rhaglen.</p>	<p>Ychwanegu at raglen y Llywodraeth Leol</p> <p>RW i fynd ar drywydd hwn RW i fynd ar drywydd hwn</p>
<p>3.</p>	<p><u>Diweddariad ar ffrwd waith: Plant ag Anghenion Cymhleth oherwydd Anabledd neu Salwch – Bethan Jones, Cyfarwyddwr Ardal</u></p> <p>Yn gyntaf oll, ymddiheurodd BJ nad oedd yr adroddiad yn cyfeirio at y cynnig a oedd yn cael ei gyflwyno i drawsnewid y gwasanaeth plant a hefyd y cynnig am gyllid moderneiddio lechyd Meddwl yr oedd BIPBC wedi cael gwybod nad oedd yn llwyddiannus.</p> <p>Dywedodd AC fod BIPBC, awdurdodau lleol a phartneriaid yn y trydydd sector wedi cytuno ar y ffrydiau gwaith cyfredol, gyda grwpiau rhanbarthol a gwaith partneriaeth ym mhob ardal. Roedd y cyfeiriad a rheolaeth strategol yn parhau drwy Grŵp Trawsnewid Plant (GTP), lle'r oedd pob mater yn cael ei uwchgyfeirio.</p> <p>Plant ag anghenion cymhleth oherwydd anabledd neu salwch oedd blaenoriaeth gyffredinol y ffrwd waith ar gyfer BPRhGC. Roedd gweithgorau lleol wedi'u sefydlu i gynorthwyo gweithio'n agos gyda'r gwasanaethau cymdeithasol ac roedd iechyd a gwelliant cynaliadwy'n parhau'n flaenoriaethau ar gyfer y bwrdd iechyd. Roedd llwybrau'n cael eu datblygu gyda thimau gwasanaethau iechyd meddwl plant a phobl ifanc lleol i wella ymgynghori, asesu a therapi yn ôl yr angen.</p>	

Roedd nifer o blant a oedd angen gofal cymhleth o fewn BIPBC yn dod o dan y pennawd hwn gydag anghenion datblygu niwrolegol. Roedd llwybr niwrolegol Cymru gyfan wedi'i roi ar waith yn y bwrdd iechyd i sicrhau bod gan blant asesiad amlddisgyblaethol gyda chymorth ac ymyrraeth. Nid salwch yw eu cyflwr, ond cwrs bywyd sydd angen cymorth o'i amgylch nad yw'n cael ei ddarparu eto. Er bod nifer yr wythnosau o aros wedi gostwng yn sylweddol ers cyflwyno'r llwybr, roedd y galw'n dal yn fwy na'r gallu i'w fodloni a'r cwestiwn a oedd cael ei ofyn oedd – pam mae cymaint o blant yn cael eu hatgyfeirio, wrth i alw gynyddu.

Roedd y ffrwd waith atal wedi arwain at waith ar y cyd ar draws y rhanbarth wrth i HGC a Chyngor Ynys Môn dreialu'r prosiect cyn ei gyflwyno. Roedd yn amlwg o brofiad bod y dull sy'n cael ei ddefnyddio yn bennaf yn newid y ffordd mae HGC yn delio â phobl ifanc i reoli sefyllfaoedd yn wahanol (profiadau niweidiol yn ystod plentyndod). Roedd gwahoddiad i bawb gymryd rhan mewn hyfforddiant gyda HGC ar ymdrin â phobl ifanc sydd wedi cael profiadau niweidiol yn ystod plentyndod. Dywedodd BJ hefyd fod nifer y bobl ifanc a oedd wedi dod i gysylltiad â HGC (Adran 136) yn 2018 wedi gostwng yn sylweddol – er nad oedd y rheswm dros hynny'n glir.

Roedd gwaith atal ac ymdrechion i ddeall beth sy'n digwydd i blant sy'n datblygu salwch meddwl ac sydd mewn trallod yn parhau pan mae llwybr iechyd Meddwl, mewn gwirionedd, yn ffordd waeth o ymdrin â phlant sydd angen eu meithrin ac angen athrawon cefnogol i sylwi ar bobl ifanc yn fuan ac ymateb i'w hanghenion.

Pwysleisiodd GR ar y pwynt hwn fod disgwyl i'r bwrdd ysgogi newid yng Ngogledd Cymru. Os na fydd newidiadau, bydd aelodau'r bwrdd yn cael eu beirniadu, felly, pan mae adroddiadau'n cael eu cyflwyno, mae angen i'r aelodau fod yn feirniadol i ddatblygu'r gwaith er lles cenedlaethau'r dyfodol.

Nododd GR fod rhan gyntaf yr adroddiad yn peri pryder ond dywedodd bod yr ail ran yn well. Nododd GR nad oedd unrhyw sôn am y gair 'integreiddio', a oedd yn rhoi gogwydd iechyd ar yr adroddiad.

Dywedodd CA na ellir darparu gwasanaethau plant yn unigol a bod pob blaenoriaeth wedi'i chytuno mewn digwyddiadau partneriaeth gyda'r Bwrdd Trawsnewid Plant (BTP) sy'n amlasiantaethol gyda chynrychiolaeth o feysydd gofal cymdeithasol, cyfiawnder ieuencid ac addysg.

Diolchodd MWJ i BJ ac AC am yr adroddiad a gofynnodd y cwestiynau canlynol:

Beth yw effaith ddisgwyliedig y gwaith hwn?

Ymatebodd BJ gan ddweud bod rhestrau aros gwasanaethau iechyd meddwl plant a phobl ifanc wedi gostwng yn sylweddol dros y tair blynedd ddiwethaf. Mae problemau gyda rhestrau aros a nifer y plant sydd â phroblemau niwrolegol ac nid â gwasanaethau iechyd meddwl

plant a phobl ifanc yn gwneud y galw am y llwybr newydd yn alw sylweddol. Bydd mwy o effaith i'w gweld wrth i BIPBC wella diagnosis, galw a rheolaeth ar alw i osod pwyntiau cychwyn cynnar.

Mae'r adroddiad yn cyfeirio at ddiffyg seicolegwyr a seiciatryddion/therapyddion drwy Brydain. Beth fydd yn cael ei ystyried yn fodel newydd?

Mae'r sefyllfa'n amrywio ar draws Gogledd Cymru, gyda llai o blant yn aros i gael eu gweld yn y gorllewin a chynnydd yn y galw ymhellach i'r dwyrain. Byddai model newydd yn cynnwys arweinydd clinigol a seicolegydd clinigol yn arwain yr uned. Mae'r mesur iechyd meddwl yn nodi mai ond gweithwyr proffesiynol penodol sy'n gallu gweithio dan y mesur ac na fyddai cyfuniad o sgiliau'n bosib'. Mae'n rhaid i BIPBC wella wrth reoli risgiau a recriwtio gweithwyr proffesiynol newydd gymhwyso.

Mae'r adroddiad hwn yn nodi cwrdd â gofynion y mesur erbyn Mawrth 2019 – pa mor ymarferol yw hyn ac a ydym ni ar y trywydd iawn i gyrraedd y targed hwn?

Dywedodd AC bod BIPBC yn gweithio'n galed i gyflawni'r amcan hwn ond nid oedd yn sicr a fyddai'r targed newydd ar draws Gogledd Cymru'n cael ei gyrraedd erbyn Mawrth 2019. Roedd BIPBC yn fwy tebygol o gyrraedd y targed gwasanaethau iechyd meddwl plant a phobl ifanc, sydd hefyd yn dibynnu ar gapasiti'r timau bach.

Croesawodd NA yr adroddiad ar blant sy'n flaenoriaeth sylfaenol i BPRhGC ac yn cysylltu â'r cynnig ynglŷn â phlant yn rhan o'r Adolygiad Seneddol.

Fel arweinydd plant BIPBC, dywedodd TO ei bod yn edrych ymlaen at weithio gyda phawb ar y rhaglen hon; gyda llais y plentyn yn ganolbwynt i'r gwaith.

Cytunodd CT gydag AC a BJ o ran galw a chapasiti. Byddai Cyngor Ynys Môn angen cynnydd sylweddol mewn gwasanaethau ac mae bellach yn gweld pam nad yw'r gwasanaeth atal yn ddigon cryf. Fel awdurdod, dylai plant fod wedi'u cefnogi'n well yn y gorffennol a rŵan yn unig yr oedd awdurdodau'n dechrau ymateb i gynnydd yn nifer y plant sydd ag anableddau niwrolegol cymhleth a deall y rheswm dros hyn. Roedd Cyngor Ynys Môn yn gwario swm sylweddol ar wasanaethau plant – a ydym ni'n gwario gormod ynteu ai diffyg gwasanaethau am wahanol resymau sydd i gyfrif am hynny. Rheswm arall oedd bod cyllid wastad i'w weld yn cael ei wario ar iechyd a'r sector aciwt ac roedd Cyngor Môn, fel awdurdod bach, wedi colli gwasanaeth er mwyn arbed arian, ac ychydig o arbedion a oedd ar ôl i'w gwneud. Byddai'n rhaid i awdurdodau lleol a'r gwasanaeth iechyd gydweithio'n fwy effeithlon yn y dyfodol i gynnal yr holl wasanaethau.

Nododd BJ mor bwysig oedd y gronfa drawsnewid a dywedodd bod BIPBC wedi gwarchod y gyllideb i blant er mwyn diogelu'r rhaglen i blant yn unol â chynnydd a galw ar y gwasanaeth.

	<p>Roedd JW yn pryderu ynglŷn â'r ffigyrau a oedd yn yr adroddiad, yn enwedig yn y dwyrain, a nodai'r swm annigonol o gyllid craidd, ac nid oedd yn deall y cynnig am gyllid iechyd meddwl yn iawn, a pham na fu'n llwyddiannus. Roedd elfennau o hyn bellach wedi'u cynnwys yn y cynnig trawsnewid ac roedd y gwaith annigonol a grybwyllwyd yn cael ei wneud mewn perthynas â throsglwyddo.</p> <p>Roedd BJ yn cyd-weld mai'r brif broblem oedd cyllid craidd a diffyg ymarferwyr. Roedd gwaith sylweddol i'w wneud i ddeall natur y galw ac roedd y gweithiwr gwasanaethau iechyd meddwl plant a phobl ifanc a benodwyd yn ddiweddar wedi cael effaith sylweddol ar y ffigyrau yn yr ardal ganolog.</p> <p>Cytunodd AC y bydd newid amgylchedd plant sydd ag anghenion cymhleth yn arwain at welliant.</p> <p>Dywedodd KR bod Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru am ail-lansio'r rhaglen 'Stay Wise', a oedd yn adnodd addysgiadol gan y gwasanaethau brys yn rhan o'r cwricwlwm cenedlaethol ac yn darparu cyngor ar ddiogelwch drwy'r fframwaith, a byddai'n croesawu trafod hynny ymhellach yn y BTP.</p> <p>Gofynnodd y Cynghorydd LIHM a oedd y datganiad yn gywir ynglŷn ag adnoddau cyfredol yn annigonol i ateb galw asesiadau niwroddatblygiadol, gan ddweud bod Cyngor Ynys Môn wedi ariannu myfyrwyr i gwblhau'r cwrs seicoleg. Roedd dewis iaith hefyd yn bwysig iawn wrth ddarparu gwasanaeth gan fod plant yn gallu cyfathrebu'n well yn eu dewis iaith, ac nid oedd hyn i'w weld yn yr adroddiad.</p> <p>Roedd JL yn croesawu unrhyw waith y gellid ei wneud i wella gwasanaethau iechyd meddwl i blant.</p>	
<p>4.</p>	<p><u>Y wybodaeth ddiweddaraf ar Fwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru (BUEGC) – Iwan Trefor Jones</u></p> <p>Cafodd y Bwrdd ddiweddariad gan ITJ ar Gynnig Twf Gogledd Cymru. Mae BUEGC ar hyn o bryd yn gwthio'r Ddogfen Gynnig:</p> <ul style="list-style-type: none"> • sydd yn cynnwys y sail resymegol dros fuddsoddi, y weledigaeth a'r amcanion, 9 o raglenni strategol, 16 prosiect craidd posib a threfniadau llywodraethu ar gyfer y Fargen Twf. • sydd yn gweithredu fel cerbyd i drosoli cyllid o £170M yr un gan Lywodraethau'r DU a Chymru – cyfanswm o £340M dros gyfnod o 15 mlynedd. • sydd wedi derbyn ymgynghoriad ac ymgysylltiad llawn yn y sectorau cyhoeddus a phreifat fel ei gilydd ar draws Gogledd Cymru, gyda'r holl bartneriaid yn ei chymeradwyo. • a fydd yn ceisio ardystiad pob Cyngor a Chyrff Llywodraethu perthnasol pob partner. <p>Dywedodd ITJ hefyd fod trafodaethau yn mynd rhagddynt â Llywodraethau'r DU a Chymru i geisio datganoliad i Lywodraeth Cymru gyda chynrychioliad o BUEGC; fod Llywodraeth Cymru yn gefnogol o'r</p>	<p>ITJ i yrru copi ymlaen at BJE</p>

holl brosiectau ac y bydd trafodaethau pellach yn cael eu trefnu i drafod y trefniadau cyllido.

Rhoddodd ITJ y wybodaeth ddiweddaraf am brosiectau penodol â pherthnasedd i Fwrdd Partneriaeth Rhanbarthol Gogledd Cymru: Digidol – Prosiect blaenoriaeth uchel gyda £30M yn cael ei ddyrannu i Ogledd Cymru ar gyfer gwaith ar dreiddiad ffibr.

Prosiect Sgiliau – Bydd broceriaeth prentisiaid yn parhau i gael ei ddatblygu i ddarparu hyfforddiant sy'n amlgu yn glir anghenion sgiliau economi'r rhanbarth ar gyfer y dyfodol.

Trafnidiaeth – Gyda chost o £80M, bydd yn mynd i'r afael â'r rhwystrau sy'n bodoli er mwyn darparu isadeiledd rhwng cymunedau a'r gweithle.

Pwysleisiodd ITJ fod yr economïau sylfaenol yn hanfodol er mwyn cyflawni twf cyflym yng Ngogledd Cymru. Mae llawer o gefnogaeth ar yr ochr ddigidol, a defnyddiodd enghraifft o'r Bwrdd Uchelgais Economaidd yn gweithio'n agos â mentrau cymunedol (solar a llanw) ar draws Gogledd Cymru sydd yn wynebu rhwystrau wrth gael mynediad at y grid cenedlaethol. Gobeithir y bydd hyn yn gatalydd i fentrau cymunedol eraill gymryd rhan.

Diolchodd TO am y diweddariad, gan nodi'r datblygiad amlwg a welwyd ers y diweddariad diwethaf, ond ei bod hefyd yn parhau i fod â phryderon ar y bylchau rhwng pobl wledig/ddinesig ac iau/hŷn.

Nododd ITJ fod gan Ogledd Cymru 16 prosiect craidd posib, yn wahanol i Gaerdydd sydd ag un neu ddau o brosiectau mwy. Mae Llywodraeth Cymru wedi cydnabod y ffaith y bydd y datblygiad yng Ngogledd Cymru yn wahanol i'r hyn a welir yng Nghaerdydd a thrwy gyflwyno 16 o brosiectau llai ar draws y rhanbarth, bodlonir ein hamcanion o ran twf cynhwysol a chynaliadwyedd.

Roedd BF hefyd yn croesawu'r prosiectau craidd i Ogledd Cymru sydd, ar hyn o bryd, heb oblygiadau o ran cost, ond nododd y byddai costau yn gysylltiedig â phob partner ymhen amser. Gyda'r cyhoeddiad cyllideb diweddar, roedd angen gwybod pa oblygiadau cost ac am ba hyd y byddai pob partner yn eu hwynebu.

Cadarnhaodd ITJ fod hyn yn bwynt pwysig iawn, a bod gwaith eisoes yn mynd rhagddo er mwyn adnabod costau. Bydd mwyafrif y gwariant ar brosiectau yn digwydd o fewn yr wyth mlynedd gyntaf. Mae'r Bwrdd yn dal i ddisgwyl cadarnhad ar lefel yr ariannu gan Lywodraethau Cymru a'r DU, ac fe fyddant y fformiwleiddio strategaeth ariannu i gyd-fynd â'r costau benthyca h.y. sut y bydd y cyllid yn cael ei rannu, a'r fformiwla y dylid ei ddefnyddio i wasanaethu'r benthyca.

Adroddodd ITJ fod BUEGC hefyd yn cymryd rhan mewn trafodaethau â Llywodraethau'r DU a Chymru ill dau ynglŷn â'r Trethi Annomestig Cenedlaethol er mwyn gwneud cais i gadw'r trethi hynny tuag at wasanaethu'r costau o fenthyca, a'u bod hefyd yn edrych ar dulliau amgen eraill e.e. rhentu isadeiledd ayyb. Cadarnhaodd ITJ nad oes

	<p>amheuaeth, serch hyn, y bydd effaith o ryw fath ar yr holl bartneriaid yn y rhanbarth.</p> <p>Gwnaeth ME sylw ar yr anhawster o ran recriwtio a chadw staff o fewn gofal cymdeithasol, a holodd a oedd modd gwneud gwaith pellach â'r grwpiau hyn.</p> <p>Pwysleisiodd ITJ fod pawb am weld y dyfodol gorau ac fod pob sector yn derbyn cefnogaeth o'r maint priodol. Dyma pam fod cydweithio yn bwysig a bod pawb yn ymwybodol o'r peryglon, yn enwedig â phrosiectau enfawr eraill megis Wylfa Newydd ar waith yng Ngogledd Cymru.</p> <p>Gwnaeth MW sylw hefyd ar y broblem o ran recriwtio a chadw staff yng nghyswllt gofal plant – sef un strwythur a oedd yn galluogi i bobl fynd allan i weithio. Os nad yw hyn yn cael ei ddarparu bydd y sgil effeithiau yn rhwystro pobl rhag cyfrannu i'r economi.</p> <p>Pwysleisiodd ITJ eto mai'r nod pwysig yw i gadw pobl yng Ngogledd Cymru, i ddarparu cyfleoedd gwaith sy'n apelio, gyda safonau byw a chyfleoedd da.</p> <p>Holodd MWJ am y llinell amser o ran mynd â'r ddogfen gynnig trwy lywodraethwyr pob partner.</p> <p>Roedd ITJ yn obeithiol y byddai'n derbyn cytundeb pob partner a Sefydliad Addysg Uwch erbyn diwedd Hydref. Disgwylir datganiad gan Lywodraeth Cymru ar 29.10.18 ac fe all arwyddo penawdau'r telerau symud ymlaen at y Model Pum Achos a ddefnyddir gan fethodoleg Llyfr Gwyrdd y Drysorfa. Rhagwelir y bydd y prosiect yn barod i gychwyn darparu erbyn Ebrill 2019.</p>	
<p>5.</p>	<p><u>Adolygiad o'r Pecyn Gwaith Cynllunio at y Gaeaf Drafft – Meinir Williams, Stephen Vaughan a Joanna Elis-Williams</u></p> <p>Roedd MW a chydweithwyr o Brifysgol Betsi Cadwaladr yn ceisio ardstiad Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol Gogledd Cymru ar Becyn Gwaith Hunanasesu Darpariaeth Aeafol Integredig (a gyflwynwyd ar ffurf drafft i Lywodraeth Cymru ar 14.09.18).</p> <p>Adroddodd MW fod Llywodraeth Cymru yn ceisio symud tuag at fodel sy'n seiliedig ar sicrwydd ar gyfer cynllunio at y gaeaf. Mae gan Brifysgol Betsi Cadwaladr Raglen Wella Gofal heb ei Drefnu trosfwaol sy'n cynnwys lechyd Meddwl, timau ardaloedd a phartneriaid (Heddlu Gogledd Cymru, Ymddiriedolaeth Gwasanaethau Ambiwlans Cymru) ac maent yn newid y fethodoleg er mwyn gweithio mewn modd mwy integredig sy'n canolbwyntio ar ddarpariaeth gydag egwyddorion yn cynnwys lleihau peryglon clinigol i gleifion mewn perthynas â gofal heb ei drefnu trwy leihau'r ddarpariaeth i 90 diwrnod.</p> <p>Mae'r dull trosfwaol yn gyson â dull sicrwydd llywodraethol o bum blaenoriaeth cynllun gaeaf Llywodraeth Cymru:</p>	

1. Ymgysylltu â sefydliadau a phartneriaid er mwyn darparu mynediad prydlon o ansawdd uchel at wasanaethau.
2. Canolbwyntio ar reoli galw yn well o fewn y gymuned.
3. Gwella gafael gweithredol a rheolaeth ysbytai er mwyn lliniaru'r adegau pan fo'r pwysau ar ei uchaf a rheoli risg yn effeithiol.
4. Canolbwyntio ar gyfleoedd pwysig er mwyn galluogi i unigolion ddychwelyd adref.
5. Cefnogi cleifion i ddychwelyd adref o safleoedd ysbyty aciwt i'w hasesu yn y cartref.

Nid oedd yr amserlen a oedd yn ofynnol yn galluogi i'r templed gael ei adolygu gan Fwrdd Partneriaeth Rhanbarthol Gogledd Cymru cyn ei gyflwyno. Cafodd ei gyflwyno i Lywodraeth Cymru gydag adendwm yn nodi nad oedd y bwrdd iechyd yn medru cynnig sicrwydd llawn i GIG Cymru fod yr holl fesurau a gynhwysir yn y Pecyn Cynllunio Gwydnwch y Gaeaf wedi eu bodloni. Pwysleisiodd MW fod safbwynt o sicrwydd yn beth anodd i'w gael, a bod Prifysgol Betsi Cadwaladr yn parhau yn eu hymdrechion i gynyddu'r lefelau sicrwydd.

Cafwyd nifer dda o fynychwyr yn lansiad y Cylch Gwella 90 Diwrnod Gofal heb ei Drefnu ar 10.10.18. Bydd Gofal heb ei Drefnu amlasiantaethol yn parhau i weithio ochr-yn-ochr i roi cynlluniau'r Cylch Gwella 90 Diwrnod ar waith gyda chysondeb â'r egwyddorion mewnol. Roedd y lansiad yn cynnwys neges o newid a gwella methodoleg cymuned gyfan, nid yn unig dros y gaeaf ond fel rhan o'r cyfrwng ar gyfer trawsnewid a gwelliant. Nododd SV y byddai'r broses sydd wedi ei sefydlu ar gyfer adegau prysur o gwmpas y Nadolig ac uchafbwynt y gaeaf yn cael ei weithredu trwy system gynyddu.

Bydd yr offeryn monitro Gofal heb ei Drefnu yn cael ei rannu yn 3 ffrwd waith:

1. Rheoli Galw – yr hyn sydd angen digwydd er mwyn i gleifion dderbyn eu gwerth drwy gydol eu harhosiad
2. Rheoli Llif – cwblhau dadansoddiad o ddata er mwyn canfod pryderon
3. Rheoli Rhyddhau – sut i hwyluso rhyddhad amserol i gefnogi materion cymhleth – paratoi cymunedau

Mae nodau'r Cylch Gwella 90 Diwrnod Gofal heb ei Drefnu yn cael eu datblygu ar y cyd â Heddlu Gogledd Cymru, Ymddiriedolaeth Gwasanaethau Ambiwlans Cymru a Gofal Sylfaenol trwy ddod â gwybodaeth yr holl sefydliadau ynghyd yn un man i gefnogi Heddlu Gogledd Cymru a Meddygon Teulu allan-o-orïau. Dyma fydd y cam cyntaf tuag at raglennu gofal ar adeg y cyswllt cyntaf, yn hytrach na throsglwyddo cleifion i ysbytai. Mae MW yn ymwybodol y dylid cynnal trafodaeth cyn cyflwyno ac fe fydd yn sicrhau fod y templed yn cael ei ddsbarthu yn gynt yn y dyfodol.

Mynegwyd pryder gan GR o glywed fod y bwrdd iechyd wedi cyflwyno adendwm i Lywodraeth Cymru yn nodi nad oes modd cynnig sicrwydd ar hyn o bryd fod yr holl fesurau yn cael eu bodloni.

Roedd MW yn bryderus mewn perthynas â sicrwydd hefyd, ond cydnabyddai fod Prifysgol Betsi Cadwaladr wedi bod yn agored a gonest â Llywodraeth Cymru. Offeryn asesu yw'r Cylch Gwaith 90 diwrnod, a dyna fel y mae pethau'n sefyll ar hyn o bryd. Byddai MW yn fodlon adolygu'r cynllun er mwyn i bawb ddeall beth yw'r tasgau oddi mewn iddo, a lle'r ydym yn gobeithio y bydd y cynllun yn mynd â ni pan ddaw'r 90 diwrnod i ben. Adroddodd MW hefyd fod adborth a dderbyniwyd gan Lywodraeth Cymru yn darlunio sefyllfaoedd unfath mewn rhanbarthau eraill yng Nghymru.

Holodd MWimbury a oedd y cynllun yn cynnwys lechyd Meddwl. Cadarnhaodd MW ei fod mewn rhai ffyrdd, ond cytunai y gallai hyn gael ei gryfhau. Bydd gwaith yn cael ei gyflawni'r wythnos nesaf i groesgyfeirio ac ychwanegu gwerth at y cynllun. Mae cynlluniau yn eu lle ar gyfer newidiadau i'r hwb a grëwyd yn Ysbyty Glan Clwyd, gyda'r timau rheoli safle yn newid i strwythur galw a rheolaeth er mwyn uwch gyfeirio gwybodaeth a deall lle yn union y mae pawb arni.

Nododd MWimbury iddi wneud ymholiad ddoe ynglŷn â'r pwysau sydd ar y sector i ganolbwyntio ar y sector gofal yn y cartref er mwyn cadw pobl allan o'r ysbyty, ac iddi gael ei siomi o glywed hysbyseb ar y radio heddiw ar gyfer swyddi i weithwyr gofal yn y cartref ar gyflog yn sylweddol uwch na chyflog gweithwyr mewn cartrefi gofal – sut felly oedd disgwyl i ddarparwyr gadw a newid staff? Mynegodd MWimbury hefyd rwystredigaeth ynghylch taliadau Gofal lechyd Parhaus, gan holi sut a phryd y byddai'r mater yma yn cael ei ddatrys, gan y gallai peidio ei ddatrys olygu na fydd y sector ddarparu ar gael i roi cefnogaeth hanfodol.

Roedd MW yn cydnabod y rhwystredigaeth o bersbectif darparwyr, ond nododd nad oedd yn rhan o drefniadau cytundebol, gan addo trafod y mater â chydweithwyr ym Mhrifysgol Betsi Cadwaladr (Reena Cartmell a Gill Harris).

Fel y cyfarwyddwr arweiniol yn gweithredu ar ran Cyfarwyddwyr Gwasanaethau Cymdeithasol Gogledd Cymru ar Ofal heb ei Drefnu, dywedodd ChW nad oedd modd iddi arwyddo'r templed ar gyfer y pecyn gwaith ar ran yr holl gyfarwyddwyr heb y cyfle i drafod ymlaen llaw.

Cytunodd MW fod gofyn am fewnbwn partneriaethau ar y templed ond bod hyn yn anffodus yn amhosib wrth weithio ar y cyflymder presennol, ac y byddai felly yn croesawu unrhyw awgrymiadau er mwyn gwella'r mecanwaith ar gyfer ymgysylltu â phartneriaid.

Nododd JW fod yna arweiniad clir ac y dylai'r mater gael ei gyfeirio trwy'r y Grŵp Arweinyddiaeth yn y dyfodol.

Nododd ChW fod gwaith amrywiol eisoes wedi cael ei gwblhau y gellid ei integreiddio i'r templed i roi ysgogiad a ffocws iddo.

MW i gysylltu ag M Wimbury

	<p>Sylwodd JL fod gweithio integredig mewn partneriaeth yn gofyn am sylw penodol i ofalwyr di-dâl, y dibynnir yn drwm arnynt.</p> <p>Cydsyniodd MW y byddai'r wybodaeth yma yn cael ei gasglu wrth gynnal trafodaethau ynglŷn â'r 'Hyn sy'n Bwysig' gan unigolion pan fydd rhai sydd â chyfrifoldebau gofalu yn cael eu hadnabod. Roddodd MW gydnabyddiaeth i'r gwaith rhagorol ar Ofalwyr er mwyn cynyddu a gwella'r gwasanaeth, sy'n cydnabod fod Gofalwyr di-dâl yn gwbl hanfodol i'w gwaith.</p> <p>Cydsyniodd MWJ hefyd â'r pwynt pwysig yma, gan grybwyll y ffaith i waith y Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol ar Ofalwyr gael ei nodi yng nghyfarfod partneriaethau Prifysgol Betsi Cadwaladr y diwrnod blaenorol. Nododd MWJ hefyd y newidiadau eang a welwyd eisoes o'i gymharu â'r llynedd, a'r gwaith cyflym a wnaed gan MW sydd yn gymharol newydd i'r swydd.</p> <p>Cadarnhaodd TO ymrwymiad y Tîm Gweithredwyr i flaenoriaethu staffio a recriwtio a phwysigrwydd tryloywder. Nododd fod taith hir o'n blaenau ac mai'r peth pwysicaf yw ein bod oll yn cydweithio.</p> <p>Diolchodd SB i MW, SV a JE-W, gan nodi'r broblem gydag amseriad, a chydabod y cysylltiadau â'r Grŵp Arweinyddiaeth.</p> <p>Dyweddodd SV ei fod yn hapus i ymgysylltu â'r rhaglen ehangach. Nododd y posibilrwydd o greu rôl sydd yn disgyn y tu allan i'r tîm rhanbarth a allai gynorthwyo yn y gwaith o hwyluso trafodaethau mewnol a chynghori ar yr hyn y gellid ei wneud yn wahanol.</p> <p>Cafwyd sylw gan ME ar y digwyddiad lansio cadarnhaol, gan nodi mai'r prif bwynt yn deillio ohono oedd cydweithrediad gan yr holl bartneriaid. Pwynt pwysig yw adlewyrchu ar - ac ymddiried yn - y cyfathrebu sy'n digwydd. Nododd ME hefyd yr ymddiriedaeth o fewn strwythur isranbarthol y Gorllewin a'r gofyn am fod yn onest â'n gilydd ynglŷn â pheryglon, i ymddiried mewn staff ac i ymddwyn yn aeddfed pan na fydd pethau'n digwydd yn ôl y bwriad.</p> <p>Cefnogodd ChS sylw SV ynglŷn â'r mater cyfathrebu – roedd yn deg dweud fod hynny wedi digwydd yn gyflym.</p> <p>Awgrymodd GR y dylid trefnu trafodaeth 'yr Hyn sy'n Bwysig' rhwng aelodau Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol Gogledd Cymru er mwyn symud ymlaen, a gwnaeth MWimbury hefyd gais am i'r sector annibynnol gael eu cynnwys yn y drafodaeth. Bydd MWJ yn siarad â chydweithwyr ar Fwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr, ac yn dychwelyd â chynnig i'w gyflwyno ger bron Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol Gogledd Cymru.</p>	
<p>6.</p>	<p><u>Rhagnodi Cymdeithasol – Dr Glyn Roberts</u></p> <p>Mynychodd Glyn Roberts er mwyn darparu'r wybodaeth ddiweddaraf ar Rhagnodi Cymdeithasol, yn benodol mewn perthynas â llythyr a</p>	

	<p>dderbyniwyd gan Fwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan yn gwneud cais am drosolwg o Ragnodi Cymdeithasol yng Ngogledd Cymru er mwyn cysylltu pobl â llesiant, gofal a chefnogaeth; gan ofyn am dempled gorffenedig erbyn dydd Llun 15.10.18.</p> <p>Darparodd Glyn Roberts ddiweddariad ar Ragnodi Cymdeithasol yng Ngogledd Cymru, gan drafod y materion hyn:</p> <p>Nid yw rhai ardaloedd wedi ymgymryd â'r gwaith hwn o fewn ffiniau eu siroedd eu hunain, gyda'r trydydd sector yn edrych ar raglenni traws-sirol. Mae ffocws naturiol yr adolygiad hwn wedi disgyn ar draws mwy nac un sir.</p> <p>Gwelwyd datblygiad hefyd yn y modd y mae rhagnodi cymdeithasol yn cysylltu â rhaglenni byr/hirdymor gyda datblygiad CRT yn cyfrannu at greu ffocws unigol a chwmpasu'r awdurdod cyfan.</p> <p>Mae enghreifftiau o waith da yn cynnwys cymryd perchnogaeth, gweithio ar draws agwedd ranbarthol y sir heb effeithio ar unrhyw waith lleol, rhannu arferion da ar draws yr awdurdod lleol a chreu momentwm. Y gobaith yw y bydd fframwaith o ganlyniadau cyffredin yn cael ei greu trwy ddatblygiad Rhwydwaith Ymchwil Cymru Gyfan.</p> <p>Nododd GR nad yw'r maes gwaith hwn wedi derbyn sylw digonol ac y byddai'r sylw hwnnw wedi gwneud byd o wahaniaeth.</p> <p>Hysbysodd GR y Bwrdd fod dros £1m wedi ei wario ar ragnodi cymdeithasol ar draws Gogledd Cymru, gyda llawer o waith eto i'w gwblhau. Mae llawer o waith wedi cychwyn ar lefel gymunedol cyn cael ei gyflwyno'n ehangach. Nid yw trosolwg rhanbarthol yn angenrheidiol i gefnogi prosiectau cymunedol i sicrhau'r gwerth gorau am arian.</p> <p>Mynegwyd pryder gan JG ynghylch y diffyg cyllid oedd ar gael ar gyfer darpariaeth anstatudol – ac felly ynghylch hirhoedledd a'r diffyg sicrwydd o ran ariannu yn y tymor hir.</p> <p>Caiff y ddogfen Rhagnodi Cymdeithasol ei chylchredeg er mwyn ymateb i'r cytundeb. Bydd yn rhaid anfon unrhyw adborth at BJE erbyn hanner dydd ar ddydd Llun 15.10.18.</p>	<p>Templed i'w gylchredeg i'r Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol er mwyn ymateb i'r cytundeb a rhoi unrhyw adborth erbyn dydd Llun</p>
<p>7.</p>	<p><u>Diweddariad ar yr Adolygiad Seneddol</u></p> <p><u>Ymyrraeth Gynnar Integredig / Cefnogaeth Ddwys i Blant a Phobl Ifanc – Neil Ayling</u></p> <p>Mae gwaith pellach wedi cael ei gwblhau ar y cynnig hwn gyda camau gweithredu wedi eu diweddarau yn dilyn cyfarfod diweddar y Grŵp Arweinyddiaeth. Mae'r cynnig bellach wedi ei gwblhau, ac roedd Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol Gogledd Cymru yn cytuno y dylid ei yrru ymlaen at Lywodraeth Cymru.</p>	<p>Gyrru'r cynnig ymlaen at Lywodraeth Cymru</p>

	<p><u>Trawsnewid Cymunedol – Sally Baxter</u> Nododd SB fod trafodaethau yn parhau, gyda rhai sylwadau yn dal i fod heb eu datrys. Gwnaeth gais am amser ychwanegol i gwblhau'r cynnig yn llawn. Mae rhai pryderon ynghylch maint y cais, yn ymwneud yn enwedig ag ail-broffilio staff. Diolchodd SB i bawb a fu o gymorth â'r gwaith ar y cynnig.</p> <p>Mynegodd ME bryder am y ffaith fod fersiwn flaenorol o'r cynnig eisoes wedi derbyn cymeradwyaeth y Lywodraeth Leol. Awgrymodd ME y dylid rhoi amser ychwanegol digonol i gwblhau'r cynnig cyn ei gyflwyno i'r Llywodraeth Leol eto, er mwyn sicrhau fod pawb yn gwbl gytûn ar y copi terfynol.</p> <p><u>Adolygiad Llywodraethu Rhanbarth Gogledd Cymru – Adroddiad Terfynol</u> Mae'r eitem hwn wedi cael ei ohirio tan gyfarfod Tachwedd Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol Gogledd Cymru</p> <p><u>Ymgynghoriad – diwygiadau i reoliadau partneriaeth yn unol â Rhan 9 Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant.</u> O ganlyniad i newidiadau i ffiniau o fewn Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr, mae Llywodraeth Cymru wedi cymryd y cyfle i ddiwygio agweddau o'r Rheoliadau Partneriaeth. Maent yn chwilio am safbwyntiau aelodau'r Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol yn benodol er mwyn:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Sicrhau eglurdeb ar yr hyn sydd ei angen er mwyn i'r Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol sefydlu cyllidebau cyfun mewn perthynas â chartrefi gofal • Cael cynrychiolydd tai ar y Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol • I'r Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol gynhyrchu strategaethau comisiynu rhanbarthol, a • Chadarnhau dyddiad adroddiadau blynyddol y Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol <p>Oherwydd cyfyngiadau amser, cytunwyd y byddai'r ymgynghoriad yn cael ei gylchredeg ar fformat dogfen Word, ac y dylai aelodau yrru unrhyw sylwadau ymlaen at BJE erbyn dydd Llun 22.10.18. Fe fydd hithau yn rhoi ymateb at ei gilydd ar ran y Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol. Cytunwyd hefyd na fyddai unrhyw sylwadau pellach yn cael eu darparu ar gyfer Cwestiwn 1 a 2 (cyllidebau cyfun) am eu bod eisoes wedi eu rhoi ar waith gan Fwrdd Arweinyddiaeth Gogledd Cymru.</p>	<p>Ychwanegu at raglen cyfarfod Tachwedd</p> <p>Cynnig i'w ychwanegu at raglen y Grwp Arweinyddiaeth</p> <p>Ychwanegu at raglen cyfarfod Tachwedd</p> <p>Gyrru sylwadau ymlaen at BJE erbyn 22.10.18</p>
8.	<p><u>Cytundeb Ysgrifenedig y Gronfa Gofal Integredig - Neil Ayling</u></p> <p>Rhyddhawyd canllawiau diwygiedig i'r Gronfa Gofal Integredig yn Ebrill 2018, a chyflwynwyd adroddiad ar hyn i'r Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol a oedd yn manylu ar ofynion ychwanegol Llywodraeth Cymru. Un o'r diwygiadau hyn oedd i adolygu'r cytundeb ysgrifenedig a chytuno arno fel Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol. Mae'r cytundeb bellach wedi cael ei adolygu gan adran gyfreithiol Cyngor Sir Ddinbych yn erbyn y canllawiau gan nodi'r trefniadau adrodd a therfynau amser a</p>	

	<p>ddiweddarwyd. Mae rhaglen wedi'i diweddarau wedi ei chytuno arni er mwyn galluogi darpariaeth o sicrwydd i Lywodraeth Cymru y bydd amserlenni adrodd yn cael eu bodloni.</p> <p>Hysbysodd NA fod Llywodraeth Cymru hefyd wedi gwneud cais am sicrwydd y bydd y trefniadau cyfredol yn weithredol er mwyn i gynrychiolwyr o'r Trydydd Sector gael eu cynnwys a'u cysylltu yn y gwaith o ddatblygu Cynllun Buddsoddi Refeniw a'r defnydd cyffredinol o arian o'r Gronfa Gofal Integredig. Caiff aelodau'r Gwasanaethau Gwirfoddol eu gwahodd ar hyn o bryd i fynychu cyfarfodydd is-ranbarthol y Gronfa Gofal Integredig er mwyn cymryd rhan a bwydo'r Cynllun. Gofynnodd NA am i gydweithwyr sydd yn Gyfarwyddwyr a Chyfarwyddwyr Rhanbarthol Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr sicrhau mai dyma'r achos.</p> <p>Nododd aelodau'r Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol gynnwys yr adroddiad, gan gytuno i gymeradwyo'r canlynol:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Fod Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol Gogledd Cymru yn nodi y bu adolygiad canol tymor ar effeithiolrwydd cytundeb ysgrifenedig Cronfa Gofal Integredig Gogledd Cymru 2017-2020 yn unol â gofynion y gytundeb ei hun, a chan ystyried canllawiau wedi eu diweddarau a ryddhawyd gan Lywodraeth Cymru yn Ebrill 2018. • Fod Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol Gogledd Cymru yn nodi fod yr holl Bartneriaid yn fodlon â gweithrediad cyfredol y Cytundeb, a'u bod wedi cytuno a rhoi ar waith drefniadau adrodd diwygiedig ar gyfer y flwyddyn ariannol gyfredol yn unol â'r hyn a nodir yn Atodlen 2 y Gytundeb, er mwyn gallu darparu sicrwydd i Lywodraeth Cymru y bydd amserlenni adrodd yn cael eu bodloni. • Fod Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol Gogledd Cymru yn nodi'r trefniadau cyfredol sy'n weithredol gogyfer ag ymgysylltu â chynrychiolwyr y trydydd sector wrth ddatblygu'r Cynllun Buddsoddi Refeniw a'r defnydd cyffredinol o arian o'r Gronfa Gofal Integredig. <p><u>Cynllun Buddsoddi Dementia</u> Nododd NA fod Llywodraeth Cymru eisoes wedi cymeradwyo dros hanner y prosiectau. Roedd gwybodaeth ychwanegol wedi ei ddarparu i Lywodraeth Cymru ar gyfer gweddill y prosiectau, a chafwyd diweddariad ddoe fod yr holl brosiectau namyn dau bellach wedi derbyn cymeradwyaeth.</p> <p>Mae egwyddorion y Cynnig Dementia yn unfath i ffrydiau gwaith y Gronfa Gofal Integredig, gydag adroddiadau chwarterol yn digwydd ar yr un dyddiadau â ffrydiau gwaith eraill, ond â thempledi adrodd gwahanol. Yr adroddiad cynnydd Dementia cyntaf i'w gyflwyno erbyn 31 Ionawr 2019.</p>	<p>Cadeirydd y Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol i ysgrifennu at Lywodraeth Cymru i gadarnhau'r sancsiynau</p>
<p>9.</p>	<p><u>Canllaw Dementia Ymddiriedolaeth Gwasanaethau Ambiwllans Cymru – Andrew Long ac Alison Johnstone</u></p> <p>Mynychwyd y cyfarfod gan Alison Johnstone, Arweinydd Dementia o fewn Ymddiriedolaeth Gwasanaethau Ambiwllans Cymru (WAST), er</p>	

	<p>mwyn rhoi cyflwyniad ar eu Canllaw Dementia. Cynhyrchwyd y Canllaw Dementia yn 2018 wedi ei anelu'n wreiddiol at weithwyr a gwirfoddolwyr. Cafodd dderbyniad gwresog ac mae bellach yn cael ei ddefnyddio'n helaeth. Mae'r llyfryn yn rhoi crynodeb o sut i gyfathrebu ag unigolion sy'n byw â dementia.</p> <p>Rhoddodd AJ drosolwg o Gynllun Gweithredu Dementia 3 blynedd WAST. Dyma ymrwymiad y gwasanaethau brys i ddementia mewn partneriaeth â Heddlu Gogledd Cymru a Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru ac mae'n cynnwys tri rhan; ymwneud, partneriaeth, a hyfforddiant. Mae hyn gyda golwg at ddarparu'r wasanaeth o safbwynt brys gyda'r weledigaeth y bydd y sefydliad erbyn 2020 yn ymateb i anghenion clinigol ac emosiynol unigolion sy'n byw â dementia, eu gofalwyr a'u teuluoedd; gyda gweithlu medrus ac effeithlon sy'n ymwybodol o ddementia.</p> <p>Mae AJ yn croesawu cyswllt gan bartneriaid i drafod ymhellach unrhyw gynlluniau rhanbarthol neu leol.</p> <p>Dyweddodd LR ei bod yn iachusol – â chymaint yn gweithio o fewn maes dementia – gweld gweithio mewn partneriaeth yn hytrach nac unigolion yn gweithio mewn seilos.</p> <p>Tynnodd BF sylw at lansiad diweddar 'darllen â dementia' yn llyfrgelloedd Cyngor Sir Ddinbych. Ar hyn o bryd, mae 17 o lyfrau ar gael ar gyfer eu darllen â phobl sydd â dementia. Mae hyn wedi profi i fod yn gynllun gwerth chweil.</p> <p>Roedd JW yn falch o weld partneriaethau ar waith, yn enwedig yng nghyswllt iaith, a chyfeiriodd hefyd at Brotoocol Herbert a lansiwyd yn ddiweddar – cynllun cenedlaethol sy'n cael ei gyflwyno yn lleol i ddarparu gwybodaeth werthfawr i'r rhai hynny sy'n chwilio am unigolion diamddiffyn sydd ar goll.</p> <p>Nododd SB fod gan Brifysgol Betsi Cadwaladr gynlluniau dementia amrywiol sydd angen eu cyfuno, ac y byddent yn croesawu cael Ymddiriedolaeth Gwasanaethau Ambiwylans Cymru (WAST) yn rhan o'r broses.</p> <p>Ychwanegodd JG fod CBS Wrecsam yn hyrwyddo Wrecsam fel tref dementia gyfeillgar. Nododd AJ fod hyn eisoes yn gysylltiedig â WAST.</p> <p>Cytunodd MW hefyd fod yr holl ddogfennau yn adnoddau rhagorol. Hysbysodd AJ y Bwrdd fod yr holl ddogfennau ar gael o wefan WAST.</p>	<p>SB i gysylltu ag AJ</p>
<p>10.</p>	<p><u>Diweddariad Lluoedd Arfog Gogledd Cymru – Cyng. Liz Roberts (Hyrwyddwr y Lluoedd Arfog yng Ngogledd Cymru), Stephen Townley a Jeanette Williams (Swyddogion Cyswllt Lluoedd Arfog Gogledd Cymru)</u></p>	

Cyflwynodd ST a JW ddiweddariad cynhwysfawr ar Gyfamod y Lluoedd Arfog, nad yw'n statudol ond sydd yn fwy o ymrwymiad. Mae pob un o chwech Awdurdod Lleol Gogledd Cymru wedi arwyddo'r cyfamod, ac maent felly wedi ymroi i warchod cyn-filwyr a'u teuluoedd rhag wynebu anfantais naill ai wrth wasanaethu neu wedi iddynt gwblhau eu cyfnod o wasanaethu. Nid canolbwyntio ar yr unigolyn yn unig a wna'r cyfamod, ond yn hytrach ar y teulu cyfan ac integreiddiad yr unigolyn yn ôl i'r gymuned, a all fod yn anodd iawn i'r mwyafrif o gyn-filwyr.

Hysbysodd JW fod Swyddogion Cyswllt Lluoedd Arfog Gogledd Cymru yn parhau i weithio mewn partneriaeth â'r CITB ac wedi trefnu digwyddiadau 'Adeiladu'r Lluoedd', gan ddod â chyflogwyr 'lluoedd arfog gyfeillgar' ynghyd er mwyn cynnig cyfleoedd gwirioneddol dda i gyn-filwyr.

Cytunodd KR fod cyn-filwyr yn wynebu rhwystrau rhag math gwahanol o waith, ac y gallai hynny fod yn broblem wrth ddod o hyd i gyflogaeth amgen. Nododd y byddai cynnal cyflogaeth hefyd yn her allweddol.

Nododd MA ei bod yn bosib nad yw cyn-filwyr hŷn yn ymwybodol o'r holl wasanaethau sydd ar gael iddynt gan nad oeddent efallai ar gael ar adeg eu hymddeoliad.

Gyda nifer amcangyfrifedig o 51,000 o gyn-filwyr yn byw yng Ngogledd Cymru, a maint cymuned y Lluoedd Arfog yn cael ei amcangyfrif yn oddeutu 125,000, anelir at wneud y broses atgyfeiriadau yn un mor llyfn a phosib; a thrwy ofyn y cwestiwn "a ydych chi neu aelod o'ch teulu wedi gwasanaethu yn y Lluoedd Arfog erioed?" wrth asesu, gellir cynnig cefnogaeth ychwanegol, yn ogystal â chymryd peth o'r pwysau oddi ar y gwasanaethau lechyd.

Mae Swyddogion Cyswllt Lluoedd Arfog Gogledd Cymru wedi derbyn gwahoddiad i fynychu is-grŵp iechyd y Bwrdd Iechyd Lleol. Mae effaith gadarnhaol wedi ei gweld eisoes gyda darpariaeth o hyfforddiant i glystyrau meddygaeth teulu er mwyn hysbysu meddygon o'r gwasanaethau a gynigir gan Fforwm Lluoedd Arfog Gogledd Cymru.

Nododd JW y bydd lansiad gwefan y Lluoedd Arfog yn fuan yn gwneud gwahaniaeth enfawr i gydlyniad y ddarpariaeth gyfeirio ac yn mynd i'r afael â chynhwysiant digidol. Caiff cofrestru cychwynnol ei gysylltu â'r Porth Cyn-filwyr er mwyn adeiladu darlun mwy llawn o'r ymholiadau a ddaw gan unigolion yng Ngogledd Cymru.

Caiff y ddwy swydd Swyddog Cyswllt Lluoedd Arfog Gogledd Cymru eu cyllido gan y Weinyddiaeth Amddiffyn hyd at fis Medi 2019. Holodd LR ynghylch y tebygolrwydd o dderbyn cyllid ar ôl 2019, ond nodwyd mai trafodaeth ar gyfer adeg arall oedd hon.

Daethai JW i'r casgliad fod y Swyddogion Cyswllt yn deall mai rôl byrdymor sydd ganddynt, ac roedd yn rhagweld tair blynedd arall o waith i roi cam 2 ar waith er mwyn cyflawni atgyfeiriadau rheolaethol o'r

	awdurdod i'r trydydd sector ac fel arall. Mae'r maes gwaith hwn wedi ei adnabod ac mae peth gwaith wedi dechrau eisoes.	
11.	<p><u>Unrhyw Fater Arall</u></p> <p><u>Seminar Oedi wrth Drosglwyddo Gofal – 07.11.18</u> Mae Llywodraeth Cymru wedi rhoi gwybod y bydd y digwyddiad yng Ngwesty'r Angel rhwng 10:30 am a 3:30 pm. Cafodd llythyr a dderbyniwyd gan Lywodraeth Cymru ynglŷn â seminar Oedi wrth Drosglwyddo Gofal ar 07.11.18 ei gylchredeg ymysg aelodau'r Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol. Cafwyd cais i ddeg aelod o'r Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol fynychu'r seminar ac hefyd i ddarparu cyflwyniad 15 munud. Mae CW, sydd wedi bod yn gweithredu fel cyswllt Oedi wrth Drosglwyddo Gofal ar ran Awdurdodau Lleol, wedi cytuno i fynychu a darparu cyflwyniad ar y cyd â Ffion Johnstone (BIPBC). Swyddogion eraill sydd wedi cytuno i fynychu yw Morwena Edwards (Cyngor Gwynedd) ac Alwyn Jones (Cyngor Sir Ynys Môn). Bydd gofyn i gynrychiolwyr ychwanegol o'r Gwasanaeth Iechyd fynychu.</p> <p><u>Llythyrau gan Brif Swyddog Gweithredol Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr</u> Derbyniwyd llythyrau gan Brif Swyddog Gweithredol Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr ynglŷn â chynyddu nifer cynrychiolwyr y Bwrdd Iechyd sydd ar Fwrdd Partneriaeth Rhanbarthol Gogledd Cymru. Derbyniwyd cadarnhad y bydd y canlynol yn cynrychioli Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr fel aelodau ar Fwrdd Partneriaeth Rhanbarthol Gogledd Cymru: Marian Wyn Jones - Is-Gadeirydd Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr Teresa Owen, Cyfarwyddwr Iechyd y Cyhoedd Chris Stockport – Cyfarwyddwr Gweithredol Gwasanaethau Cynradd a Chymunedol Mark Wilkinson – Cyfarwyddwr Gweithredol Cynllunio a Pherfformiad Bethan Jones, Cyfarwyddwr Rhanbarth Canolog Ffion Johnstone, Cyfarwyddwr Rhanbarth y Gorllewin Rob Smith, Cyfarwyddwr Rhanbarth y Dwyrain</p> <p><u>Cynrychiolwyr Tai ar Fwrdd Partneriaeth Rhanbarthol Gogledd Cymru</u> Derbyniwyd llythyr gan Clare Budden (CB), Prif Swyddog Gweithredol Pennaf Cyf., yn derbyn y gwahoddiad diweddar i ymuno â Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol Gogledd Cymru. Bydd CB hefyd yn cynghori maes o law ar fanylion yr ail gynrychiolydd, yn dilyn trafodaethau â Sefydliadau eraill sy'n gweithredu ar draws y rhanbarth.</p> <p><u>Swydd Ymarferydd Ymgynghorol Dementia Perthynol i Iechyd Cymru Gyfan</u> Derbyniwyd llythyr gan yr Uwch-Swyddog Meddygol Liz Davies, Llywodraeth Cymru, yn gwneud cais am fynegiant o ddiddordeb trwy'r Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol ar gyfer gwesteio trefniant y swydd uchod, a fydd yn darparu cyngor a chymorth i fyrdau iechyd ac</p>	<p>SB i anfon enwau Prifysgol Betsi Cadwaladr ymlaen at BJE</p> <p>Cynnwys rhain ar y rhestr anfon a gyrru gwahoddiadau calendr atynt</p> <p>TO i roi'r wybodaeth ddiweddaraf yng nghyfarfod Tachwedd y Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol</p>

	<p>awdurdodau lleol er mwyn galluogi darpariaeth o ofal unigolyn ganolog a gyrru gwelliannau i'r gwasanaeth yn eu blaenau.</p> <p>Cytunodd TO i drafod a gwneud ymholiadau o ran yr opsiynau yn hyn o beth â Phrifysgol Betsi Cadwaladr, ac adrodd yn ôl.</p> <p><u>Cyllidebau</u> Mynegwyd pryder gan NA ynghylch cyhoeddiad diweddar cyllideb ddrafft Awdurdodau Lleol, ac awgrymodd yrru llythyr gan y Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol at Mark Drakeford AC gydag adborth rhanbarthol.</p> <p>Eiliwyd y cynnig hwn gan BF, gan nodi nad yw'r gyllideb sydd wedi ei ddyrannu yn fanteisiol wrth hybu gweithio mewn partneriaeth. Cytunodd SB fod Prifysgol Betsi Cadwaladr hefyd yn dymuno gweld gofal cymdeithasol yn ffynu, gan ddweud y dylid cofio fod Prifysgol Betsi Cadwaladr hefyd yn rhan o Fwrdd Partneriaeth Gogledd Cymru.</p> <p><u>Cyllidebau cyfun</u> Mae Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol Gogledd Cymru ar hyn o bryd yn trafod mater cyllidebau cyfun ar gyfer cartrefi gofal. Mae Ymgynghoriad Llywodraeth Cymru ar Ran 9 y Ddeddf yn cau ar ddiwedd mis Hydref. Cytunodd aelodau'r Bwrdd Partneriaeth i ymateb i holl gwestiynau'r ymgynghoriad ac eithrio Cwestiynau 1 a 2 – sydd yn ymwneud â chyllidebau cyfun – erbyn dydd Llun 22.10.18.</p>	<p>Adborth ar ymgynghoriad Rhan 9 i'w anfon at BJE erbyn 22.10.18</p>
	<p>Dyddiad y cyfarfod nesaf: Ddydd Iau 15 Tachwedd 2018 9:00 am - 12:30 pm</p> <p>Cafwyd cais gan aelodau o Brifysgol Betsi Cadwaladr am nodi ymddiheuriadau gan unigolion o'r Gwasanaeth Iechyd a fydd yn mynychu'r digwyddiad Gofal Sylfaenol Cenedlaethol yng Nghaerdydd.</p>	